



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pierhead Street
Caerdydd
CF99 1NA

16/12/2016

Ymgynghoriad ar Fil Iechyd y Cyhoedd

- 1.1 Mae Comisiynydd y Gymraeg yn croesawu'r cyfle i gynnig sylwadau ar y bil pwysig hwn. Mae'r bil yn ymwneud â maes sy'n berthnasol iawn i'r Gymraeg a lle fo'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn hollbwysig, sef gwasanaethau iechyd. Nododd y cyn-Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Mark Drakeford AC

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau gofal cymdeithasol o safon uchel sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac anghenion pobl. Mae'n fwy na chydymffurfio â gofynion cyfreithiol a chynnal safonau proffesiynol yn unig; mae hefyd yn ymwneud â gwella ansawdd y gofal a diwallu anghenion ieithyddol pobl, a darparu gwasanaethau cyhoeddus da sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.¹

2 Cyd-destun

- 2.1 Prif nod y Comisiynydd yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Mae dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd
- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru;
 - Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.
- 2.2 Un o amcanion strategol y Comisiynydd yw dylanwadu ar yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg mewn datblygiadau polisi. Darperir y sylwadau isod i'r perwyl hwnnw, ac yn unol â rôl y Comisiynydd fel eiriolwr annibynnol ar ran siaradwyr Cymraeg yng Nghymru y gallai'r ymgynghoriad hwn effeithio arnynt.

¹ <http://gov.wales/docs/dhss/publications/160317morethanjustwordscy.pdf> (t4)

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5-7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

Correspondence welcomed in Welsh and English



3. Drafft blaenorol Bil Iechyd y Cyhoedd

- 3.1 Ym mis Mehefin 2014 [ymatebais i bapur gwyn Llywodraeth Cymru ar iechyd y cyhoedd](#). Yn ogystal ymatebais ym mis Awst y llynedd i ymgynghoriad Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Pedwerydd Cynulliad ar ddrafft blaenorol o Fil Iechyd y Cyhoedd ac amgaeaf gopi o'r [ymateb hwnnw](#).
- 3.3 Roedd Rhan 5 drafft blaenorol y bil yn ymwneud yn benodol â gwella gwasanaethau fferyllol. Yn 2014 cyhoeddais adroddiad ar fy ymholiad statudol i'r Gymraeg mewn gofal sylfaenol, *Fy Iaith, Fy Iechyd*, gan amlygu diffygion mewn gwasanaethau gofal sylfaenol cyfrwng Cymraeg gan gynnwys gwasanaethau fferyllol. Er enghraifft, yn ôl ymchwil a gynhaliwyd gan Ysgol Fferylliaeth Prifysgol Caerdydd yn 2008, nid oedd dewis gan gwsmeriaid i siarad Cymraeg gyda staff mewn 60% o holl fferyllfeydd Cymru. Yn ei strategaeth ar gyfer gwella gwasanaethau Cymraeg o fewn iechyd a gofal sylfaenol, 'Mwy na Geiriau', cydnabu'r Llywodraeth yr angen i wella gwasanaethau fferyllol cyfrwng Cymraeg. Er hyn, ni chynigiwyd o fewn drafft blaenorol o bil unrhyw ddarpariaeth benodol ar gyfer gwella gwasanaethau fferyllol cyfrwng Cymraeg. Wrth ymateb i ddrafft blaenorol y bil hwn felly, fy mhrif sylw oedd nad oedd y Llywodraeth yn manteisio ar y cyfle a gynigiwyd gan Rhan 5 y bil i wella gwasanaethau fferyllol cyfrwng Cymraeg.
- 3.4 Wrth ymateb i'r hynny, argymhellodd Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Pedwerydd Cynulliad y canlynol yn ei adroddiad cyfnod 1 ar y bil drafft

Argymhelliad 14. *Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei gwneud yn eglur sut y mae'n bwriadu rhoi sylw i bryderon Comisiynydd y Gymraeg o ran Rhan 5 o'r Bil (Gwasanaethau Fferyllol).*

- 3.5 Ymatebodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'r argymhelliad hwnnw mewn llythyr at y Pwyllgor

Wrth baratoi eu hasesiadau o anghenion fferyllol, bydd angen i fyrddau Iechyd ystyried unrhyw ffactorau perthnasol:- gan gynnwys nifer y siaradwyr Cymraeg, y gwasanaethau fferyllol sydd ar gael yn Gymraeg gan y fferyllfeydd presennol, a'r graddau y mae argaeledd gwasanaethau fferyllol yn Gymraeg yn cyfrannu at



ddigonolrwydd neu annigonolrwydd mynediad i wasanaethau fferyllol.

Ymrwymodd y Gweinidog yn ogystal i gynnal arolwg o'r defnydd o'r Gymraeg mewn fferyllfeydd cymunedol.

- 3.6 Tra'n gwerthfawrogi'r camau hynny i asesu argaeledd gwasanaethau fferyllol cyfrwng Cymraeg, roedd gennyf bryder nad oedd drafft blaenorol y bil yn cynnig unrhyw ddarpariaeth ar gyfer gwella gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

4. Bil Iechyd y Cyhoedd 2016

- 4.1 Fel yn nrafft blaenorol y bil, ni chynigir unrhyw ddarpariaeth benodol ar gyfer gwella gwasanaethau fferyllol cyfrwng Cymraeg. O ystyried y dystiolaeth glir o ddiffygion mewn gwasanaethau fferyllol cyfrwng Cymraeg a'r ymrwymiad yn '*Mwy na Geiriau*' i fynd i'r afael â'r diffygion hynny, anodd yw deall pam na fanteisir ar y cyfle a gynigir gan y bil hwn i sicrhau gwell gwasanaethau fferyllol ar gyfer siaradwyr Cymraeg.
- 4.3 Deddfwriaeth yw un o brif arfau'r Llywodraeth ar gyfer sicrhau gwelliant i wasanaethau ac mae'r bil hwn yn cynnig cyfle euraidd i ystyried sut y gellir defnyddio deddfwriaeth er mwyn gwella argaeledd a safonau gwasanaethau fferyllol yn Gymraeg. Hyderaf bydd y pwyllgor yn cytuno na ddylid colli'r cyfle hwn, yn enwedig o ystyried y gall safon gwasanaethau fferyllol ddibynnu i raddau helaeth ar gyfathrebu effeithiol yn iaith y derbynydd.
- 4.4 Gobeithiaf y bydd Llywodraeth Cymru'n cyflwyno dyletswyddau iaith statudol ar gyfer y sector iechyd yn fuan yn unol â darpariaethau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, sef Safonau'r Gymraeg. Yn yr Adroddiad Safonau a gyflwynais i Weinidogion Cymru yn sgil cynnal Ymchwiliadau Safonau i'r sector iechyd, argymhellais y dylai darparwyr gofal sylfaenol gan gynnwys fferyllwyr fod yn ddarostyngedig i'r un gofynion statudol mewn perthynas â'r Gymraeg a darparwyr gwasanaethau iechyd eraill yng Nghymru. Hyd yma, nid oes Safonau wedi eu cyflwyno ar gyfer darparwyr gofal sylfaenol ac ni roddwyd sicrwydd y bydd hynny'n digwydd. Mae hynny'n amlygu'r angen i fanteisio ar y cyfle euraidd a gynigir gan y bil hwn i wella gwasanaethau fferyllol cyfrwng Cymraeg.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

- 4.5 Gwerthfawrogwn pe bai'r pwyllgor yn rhoi sylw i'r sylwadau a gynigir gennyf uchod ac a gynigiwyd gennyf ar ddrafft blaenorol y bil hwn ac i'r papur gwyn a gyhoeddwyd yn 2014.

Yn gywir

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg

Copi at: Bethan Jenkins AC, Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, Iaith Gymraeg a
Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru